01639 862801
SBU.SchoolNursing@wales.nhs.uk

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | Swansea Bay University Health Board

# Nyrsio Ysgol a Gwasanaethau Plant Mewn Gofal

**Annwyl Rhiant / Gwarcheidwad,**

Gall y gwasanaeth nyrsio ysgol yn eich ardal leol ddarparu addysg iechyd, hyrwyddiad, cyngor a chefnogaeth i bob plentyn, person ifanc a'u teuluoedd. Gan fod eich plentyn wedi cyrraedd oed ysgol, hoffem gymryd y cyfle hwn i'ch hysbysu o'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu mewn ysgolion prif ffrwd. Ar oedran mynediad ysgol, cynhelir 'Adolygiad Mynediad Ysgol' a darperir asesiad o anghenion iechyd y plant.

## Mae'r adolygiad mynediad ysgol yn cynnwys:

- Trosglwyddo gofal o'r Ymwelydd Iechyd i'r Nyrs Ysgol
- Prawf golwg
- Mesur twf (taldra a phwysau)
- Sgrinio clyw (a wneir gan yr adran awdioleg)
- Adolygiad o statws imiwneiddio plant.

Gall eich plentyn gyrchu'r gwasanaethau hyn fel a ganlyn;

## Prawf Golwg

Rydym yn argymell eich bod yn mynd â'ch plentyn at optometrydd (optegydd) i gael profi ei lygaid.

## Pam ei bod hi'n bwysig archebu prawf golwg?

Mae golwg dda yn hanfodol i sicrhau bod plant yn cael cyfle i gyflawni eu potensial gweledol, addysgol a chymdeithasol llawn. Efallai na fydd plant yn sylweddoli bod ganddyn nhw broblem golwg, a allai, yn ei dro, effeithio ar eu datblygiad a'u haddysg.

Felly, fe'ch cynghorir i archebu prawf golwg ar gyfer eich plentyn, pan fydd yn gyfleus, i sicrhau y gellir nodi unrhyw faterion cyn gynted â phosibl.

Ewch i: https://lookafteryoureyes.org/eye-care/childrens-eye-health/

## Ble alla i archebu prawf golwg?

Gellir cyrchu profion golwg y GIG i blant ym mhob practis optometreg (optegydd) yng Nghymru. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

Ewch i: Gwasanaeth 111
Ewch i: Gofal Llygaid Cymru

## A oes cost?

Mae holl brofion golwg y GIG AM DDIM i blant o dan 16 oed a'r rhai rhwng 16 a 18 oed mewn addysg llawn amser.

**Gwybodaeth Cyswllt**

Os bydd angen cefnogaeth arnoch gan ein gwasanaeth nawr neu yn y dyfodol, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni. Rydym yn cynnig ap-wyntiadau i weddu eich anghenion, naill ai gartref, yn yr ysgol neu trwy ein llwy-fannau rhithwir.

01639 862801

SBU.SchoolNursing@wales.nhs.uk

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe / Swansea Bay University Health Board

# Gwasanaeth Nyrsio Ysgol a Plant Mewn Gofal

### Beth os oes gen i bryderon am taldra neu pwysau fy mhlentyn?

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch taldra neu bwysau eich plentyn, cysylltwch â'ch meddyg teulu neu Nyrs Ysgol. Gallai hyn fod yn bryder eu bod uwchlaw neu islaw ystod pwysau iach neu pryderon yn ymwneud â'u taldra.

Ymwelwch â: Pob Plentyn.

### Beth os oes gennyf bryderon ynghylch clyw fy mhlentyn?

Os ydych chi'n poeni am glyw eich plentyn, cysylltwch â'ch meddyg teulu i drafod eich pryderon. Am fwy o wybodaeth am yr llwybr sgrinio clyw ewch i: Llwybr sgrinio clyw yng Nghymru

### A yw'ch plentyn wedi'i gofrestru gyda deintydd?

Argymhellir bod plant yn gweld deintydd o leiaf unwaith y flwyddyn.

Ewch i: Cynllun Gwên

### Yn poeni am eich plentyn yn gwlychu neu'n rhwym yn ystod y dydd / nos?

Am wybodaeth ddefnyddiol ewch i www.eric.org.uk. Mae ein gwasanaeth nyrsio ysgol hefyd yn medru cynnig cyngor. Gallwch hunangyfeirio trwy gysylltu â'ch tîm nyrsio ysgol.

### Ydych chi'n poeni am iechyd a lles neu ymddygiad emosiynol eich plentyn?

I gael awgrymiadau defnyddiol ar gyfer rhieni ar hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol,
ymwelwch â: Magu Plant. Rhowch amser iddo | LLYW.CYMRU
Ymwelwch â: Hafan - TidyMinds Welsh
Gallwch hefyd gysylltu â'ch meddyg teulu neu hunangyfeirio at eich gwasanaeth nyrsio ysgol i gael cefnogaeth.

### Beth os oes gen i bryderon am iechyd fy mhlentyn yn gyffredinol?

Os ydych chi'n poeni am unrhyw agwedd ar iechyd eich plentyn, cysylltwch â'ch meddyg teulu.

### Pa imiwneiddiadau sydd angen ar fy mhlentyn?

Er mwyn cael gwybodaeth bellach am imiwneiddiadau plentyndod arferol ymwelwch â: Hafan - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)

Gwnewch apwyntiad ym meddygfa eich meddyg i sicrhau ei fod ef / hi yn cael ei amddiffyn

### A oes rhywun yn ysmygu yng nghartref eich plentyn?

Mae cymorth cyfeillgar i roi'r gorau i ysmygu ar gael yn rhad ac am ddim ar: Tudalen Gartref - Helpa Fi i Stopio  Ffôn: 0800 085 2219

**Gwefan Nyrsio Ysgol a Plant mewn gofal**

Mae'r holl wefannau a welir yn y llythyr hwn ar gael ar ein gwefan. drwy